Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Swyddog Ymchwil**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | **Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd** |
| **Adran/Pwnc:** | **Gwyddor Data** |
| **Cyflog:** | **Gradd 8: £39,105 i £45,163 y flwyddyn (pro rata) ynghyd â buddion Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS)** |
| **Oriau gwaith:** | **35 awr yr wythnos (100% CALl)** |
| **Nifer y swyddi:** | **1** |
| **Contract:** | **Swydd am gyfnod penodol yw hon, tan 31 Awst 2025** |
| **Lleoliad:** | Lleolir y swydd hon ar Gampws Parc Singleton |

**Prif Ddiben y Swydd**

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio ar brosiectau amrywiol ym mhortffolio'r Tîm Poblogaeth, Seiciatreg, Hunanladdiad a Gwybodeg (PPSI). Arweinir y tîm gan yr Athro Ann John, cyd-gyfarwyddwr DATAMIND, sydd wedi llwyddo i sicrhau cyllid am 5 mlynedd arall i barhau i weithio tuag at ei weledigaeth hirdymor i drawsnewid ymchwil i iechyd meddwl ar draws y pedair cenedl. Mae hi hefyd yn arwain y thema Gwyddor Data yng Nghanolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc, gan ganolbwyntio ar leihau pryder ac iselder ymhlith pobl ifanc.

Bydd y prif ddyletswyddau'n cynnwys:

1. Cynnal ymchwil i dirwedd data iechyd meddwl y DU
2. Cydweithio â rhanddeiliaid allanol ar draws y 4 cenedl i ddeall proses cynhyrchu data iechyd meddwl.
3. Ysgrifennu adroddiadau cymhleth ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol sy'n ymwneud â thirwedd data.
4. Cyfrannu at gyflwyno ceisiadau am grantiau i sicrhau cyllid ar gyfer ymchwil.
5. Cymryd rhan ragweithiol mewn cyfarfodydd prosiect a chyfrannu at drafodaethau ar welliannau ym maes gwyddor data iechyd meddwl.
6. Cynorthwyo wrth reoli'r prosiect i sicrhau bod yr holl allbynnau'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus.
7. Unrhyw ddyletswyddau eraill y gellir eu disgwyl o fewn diffiniad y radd yn unol â chyfarwyddyd y Prif Ymchwilydd neu gynrychiolydd a enwebwyd ganddo.
8. Cyfrannu at ymchwil ac ymgymryd â hi mewn modd rhagweithiol, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data a chyflwyno canlyniadau gan ddangos rhywfaint o annibyniaeth wrth bennu pwyslais a chyfeiriad yr ymchwil honno.
9. Llunio adroddiadau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig y rhai sydd i'w cyhoeddi mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid (e.e. rhyngwladol) neu gyhoeddiadau cymharol, yn rhan arferol o'i rôl.
10. Bod yn hunangymhellol a defnyddio menter bersonol, gan geisio dod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau a gofyn am arweiniad pan fo angen.
11. Defnyddio creadigrwydd i ddadansoddi a dehongli data ymchwil a dod i gasgliadau ar sail y canlyniadau.
12. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadran, mewn mannau eraill yn y Brifysgol, a'r tu hwnt ym myd diwydiant a masnach ac yn y byd academaidd.
13. Cyfrannu'n rhagweithiol at y gwaith o ddatblygu ceisiadau am gyllid allanol i gefnogi eich gwaith eich hun, gwaith eraill a gwaith y Gyfadran a'r sefydliad yn gyffredinol. Disgwylir i'r sawl a benodir gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ysgrifennu, neu gyfrannu at ysgrifennu ceisiadau o'r fath yn rhan arferol o'i waith.
14. Cyfrannu at faterion trefniadol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol.
15. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes o safbwynt technegol a phenodol a'r maes pwnc ehangach a'r goblygiadau ar gyfer cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth neu'r byd academaidd.
16. Gweithredu fel cynrychiolydd neu aelod o bwyllgorau pan fo angen gan ddefnyddio'r cyfle i ehangu ei brofiad proffesiynol.

| | |
|---|---|
| | 17. Dangos eich datblygiad proffesiynol eich hun gan ddarparu tystiolaeth, nodi anghenion datblygu, gan gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran cyfnod prawf, adolygiadau perfformiad, a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi.<br>18. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff perthynol eraill.<br>19. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 20. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>21. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>22. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>23. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br><br>1. PhD neu gymhwyster ôl-raddedig yn y Gwyddorau Cymdeithasol neu gyfwerth<br>2. Tystiolaeth o gyfranogiad gweithredol a rôl bersonol yn y gwaith o ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, a chyfrannu at y gwaith hwn, yn enwedig ar gyfer cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid.<br>3. Tystiolaeth o'r gallu i lunio ac ysgrifennu gwaith ymchwil, neu gyfrannu at ysgrifennu ceisiadau am arian ymchwil allanol.<br>4. Y gallu i ddangos annibyniaeth sylweddol o ran ffocws a chyfeiriad mewn ymchwil – penderfynu 'beth, pam, pryd a chyda phwy' i fwrw ymlaen â'r gwaith.<br>5. Dulliau Ymchwil Ansoddol<br>6. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br><br>7. Profiad o oruchwylio prosiectau myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig<br>8. Profiad o weithio mewn prosiectau rhyngwladol i gefnogi'r dirwedd ehangach<br>9. Profiad mewn iechyd meddwl, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc |
| **Welsh language level** | Lefel 1 – 'ychydig' – ynganu geiriau Cymraeg Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd syml iawn (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi.). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Cyfeiriwch unrhyw ymholiadau at sylw Dara Almeida Medina, Rheolwr y Rhaglen - dara.almeidamedina@abertawe.ac.uk |